# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 21 Mai 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(133)v5

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**Cwestiynau Brys**

**Cwestiwn Brys 1**

**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa eglurhad sydd gan y Gweinidog dros y dirywiad yn safonau addysg ym Mlaenau Gwent ers penodi comisiynwyr ddwy flynedd yn ôl?

**Cwestiwn Brys 2**

**Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn Nghymru yn sgil llythyr Michael Gove, Ysgrifennydd Addysg Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ddoe?

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Diwygiad Lles (45

**munud)**

**4. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Law yn Llaw at Iechyd - diweddariad chwe mis (45 munud)**

**5. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle (30 munud)**

**6. Dadl: Hyrwyddo Twf Gwyrdd drwy Effeithlonrwydd Adnodd (60 munud)**

**NDM5243 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod gwerth hybu twf gwrdd fel un o'r prif sbardunau i'n gweledigaeth ar gyfer dyfodol Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig:

Yn cydnabod y potensial enfawr ar gyfer twf gwyrdd yng Nghymru.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig:

Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddatblygu'r economi werdd.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig:

Yn nodi amcangyfrif y Gymdeithas Ynni Adnewyddadwy, sef y gallai tua 400,000 o swyddi ledled y DU gael eu cefnogi gan y diwydiant ynni adnewyddadwy erbyn 2020, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd busnes gwyrdd ar gyfer twf economaidd.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd mentrau gwyrdd wrth gefnogi'r gwaith o adfywio cymunedau a manteision eang cynlluniau cymunedol gwyrdd.

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn annog Llywodraeth Cymru i lunio strategaeth drosfwaol glir ar gyfer twf gwyrdd sy'n cael ei chefnogi gan dargedau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ynghyd â chanllawiau clir i ddatrys gwrthdaro rhwng blaenoriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

**Gwelliant 6 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi rhaglen gyda chanlyniadau y gellir eu mesur i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru.

**Gwelliant 7 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Coleg Adeiladu Sgiliau Gwyrdd i wneud Cymru yn ganolfan ragoriaeth.

**Gwelliant 8 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi 'trywydd' a chynllun gweithredu, gyda thargedau cynhyrchu, ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy.

**Gwelliant 9 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu Banc Buddsoddi Gwyrdd ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i asesu'r cymorth y gall ei gynnig i fusnesau Cymru er mwyn iddynt fanteisio ar y cyfleoedd y mae'r buddsoddiad hwn yn ei greu ar gyfer y gadwyn gyflenwi ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

**Gwelliant 10 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd sylfaen sgiliau gwyrdd i ddatblygu cadwyn gyflenwi gadarn ac effeithiol yng Nghymru, er mwyn cefnogi twf gwyrdd yn economi ehangach Cymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'r cyfleoedd academaidd a galwedigaethol sydd ar gael yng Nghymru i ddatblygu'r sgiliau i gefnogi swyddi gwyrdd.

**Gwelliant 11 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu dangosyddion perfformiad penodol i fonitro cynnydd twf gwyrdd yng Nghymru, er enghraifft:

1. Diweddaru ffigurau Gwerth Ychwanegol Crynswth bob chwarter
2. Ystadegau busnes sy'n canolbwyntio ar gategorïau craidd yn Rhaglen Adnewyddu'r Economi
3. Ystadegau cyflogaeth yn y gweithle ar gyfer yr economi werdd.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 22 Mai 2013